Estyn

Chwefror 2022



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector nas cynhelir

Tymor yr hydref 2021

## Cyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o 57 ymweliad ymgysylltu â lleoliadau nas cynhelir yn ystod tymor yr hydref 2021. Mae wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd gydag arweinwyr a staff lleoliadau.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o'r adborth o 12 cyfarfod ardal gydag athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar a phartneriaid cymorth o awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a sefydliadau ymbarél (cyfeirir atynt yn yr adroddiad fel partneriaid cymorth).

Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles plant a staff, y cwricwlwm ac addysgu, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth mewn lleoliadau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae cyfrannau'n ymwneud â sampl y lleoliadau yr ydym wedi cael cyswllt â nhw yn y cyfnod adrodd hwn.

# Cynnwys


**Prif ganfyddiadau** **1**

Y cwricwlwm ac addysgu 1

Dysgu Proffesiynol 2

Arweinyddiaeth 2

Lles 2

Anghenion dysgu ychwanegol 3

**Canfyddiadau manwl** **4**

Y cwricwlwm ac addysgu 4

Dysgu Proffesiynol 8

Arweinyddiaeth 11

Lles 14

Anghenion dysgu ychwanegol 17










## Prif ganfyddiadau

### Y cwricwlwm ac addysgu

1 Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr wedi parhau i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau addas sy'n ymgysylltu â dysgwyr yn briodol, er gwaethaf y tarfu parhaus a achoswyd gan COVID-19.

2 Mae mwyafrif yr arweinwyr wedi dechrau sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad cynyddol at adnoddau dilys, fel eitemau bob dydd y cartref, yng ngwahanol ardaloedd dan do ac allanol y lleoliad.

3 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau wedi cynyddu'r defnydd o'r awyr agored ar gyfer dysgu. Darparodd mwyafrif ohonynt gyfleoedd i blant symud yn rhwydd rhwng darpariaeth dan do a darpariaeth awyr agored.

4 Teimlai llawer o bartneriaid cymorth fod lleiafrif o leoliadau wedi achub ar y cyfle i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig, yn barod ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae mwy o ffocws wedi bod ar chwarae a dysgu'n seiliedig ar chwarae, a mwy o gyfleoedd i ymateb i ddiddordebau plant.

5 Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym ni eu bod wedi parhau i ddarparu cydbwysedd rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan blant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Hyd yn oed mewn achosion lle mae lleoliadau'n arbrofi ag ymagwedd fwy ymatebol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu.

6 Siaradodd partneriaid cymorth am ymdeimlad cyffredinol fod medrau Cymraeg plant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref wedi llithro'n ôl yn ystod cyfnodau clo. Fodd bynnag, dywedodd llawer o arweinwyr wrthym ni fod plant yn caffael medrau Cymraeg yn dda yn ystod tymor yr hydref.

7 Mae problemau parhaus â recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg wedi golygu nad yw ymarferwyr bob amser yn meddu ar y medrau Cymraeg i gynorthwyo plant yn effeithiol, a gallai hyn fod â goblygiadau i gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir.

8 Dywedodd y rhan fwyaf o bartneriaid cymorth fod amrywioldeb sylweddol ar draws lleoliadau yn eu hardal, a'u parodrwydd i arddel ffordd newydd o weithio. Teimlai'r rhan fwyaf ohonynt fod ymarferwyr yn ceisio eglurder am drefniadau asesu yn y dyfodol.

9 At ei gilydd, roedd ymarferwyr a fu'n gysylltiedig â cham creu a phrofi'r ddogfen cwricwlwm nas cynhelir yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i phrif egwyddorion a'r modd yr oedd yn cysylltu â'r agweddau eraill ar y Cwricwlwm i Gymru.

## Dysgu Proffesiynol

10 Trwy gydol cyfnod y pandemig, dywedodd arweinwyr wrthym ni eu bod wedi gweithio'n galed i gynnal ffocws cyson ar sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr.

11 Dywedodd llawer o arweinwyr a phartneriaid cymorth wrthym y bu'n anodd i arweinwyr lleoliadau ryddhau ymarferwyr i fynychu hyfforddiant o ganlyniad i brinder staff yn gysylltiedig â COVID-19. Dywedodd partneriaid cymorth fod y nifer sy'n manteisio ar ddysgu proffesiynol yn dda, ar y cyfan, ond bod y nifer wedi lleihau yn aml wrth i fwy o leoliadau gael trafferthion â phroblemau staffio a blinder.

## Arweinyddiaeth

12 Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliodd bron pob arweinydd eu protocolau sefydledig i sicrhau diogelwch plant a staff er gwaethaf yr heriau a achosir gan COVID-19. Fodd bynnag, roedd arwain eu lleoliad o ddydd i ddydd, cynnal morâl staff a glynu at yr arweiniad esblygol ar ddiogelwch, yn parhau i fod yn heriol.

13 Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym fod rheoli absenoldeb staff o ganlyniad i hunanynysu wedi bod yn heriol, yn enwedig gan fod prinder mawr o ran staff cyflenwi. Mynegodd lleiafrif o arweinwyr eu pryderon fod sawl aelod o staff wedi cael swydd arall, a bod recriwtio yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae'r pryderon hyn hyd yn oed yn fwy dybryd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

14 Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym ni ei fod yn parhau'n gyfnod anodd iawn i gynnal momentwm a chyflwyno newidiadau strategol yn eu lleoliadau. Er gwaethaf yr heriau parhaus yn sgil COVID-19, parhaon nhw i werthuso eu darpariaeth a'r profiadau y maent yn eu darparu ar gyfer y plant.

## Lles

15 Ymgynefinodd y rhan fwyaf o blant yn dda yn ystod tymor yr hydref, a mwynhau eu dysgu. Fodd bynnag, nododd ychydig o arweinwyr ei bod yn ymddangos bod medrau personol a chymdeithasol mwy o blant a ddechreuodd yn ystod tymor yr hydref yn llai datblygedig na'r arfer.

16 Mae'r rhan fwyaf o bartneriaid cymorth yn cytuno ei bod yn ymddangos bod gan fwy o blant anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu, a'u bod yn llai annibynnol o ganlyniad i'r pandemig. Nodon nhw hefyd fod lleoliadau'n fwy ymwybodol erbyn hyn o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant yn ystod y pandemig, a bod angen parhau i gynorthwyo plant a'u teuluoedd.

17 Sicrhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod cefnogi lles staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth iddynt yn ystod tymor yr hydref wrth i COVID-19 barhau i effeithio ar eu gwaith.

**Anghenion dysgu ychwanegol**

18 Dywedodd y rhan fwyaf o bartneriaid cymorth wrthym eu bod wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr lleoliadau dros y flwyddyn ddiwethaf i baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

19 Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant maent wedi'i gael gan eu hawdurdodau lleol, ac yn croesawu rôl newydd Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i gydlynu cymorth ar gyfer plant, a rhoi cyngor ac arweiniad priodol i staff.

20 Mae arweinwyr mewn ychydig o leoliadau cyfrwng Cymraeg a phartneriaid cymorth wedi mynegi pryderon ynghylch argaeledd cymorth arbenigol ar gyfer plant a'u teuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

21 Dywedodd llawer o arweinwyr a phartneriaid cymorth fod cynnydd yn nifer y plant sydd â phroblemau lleferydd ac iaith, yn ogystal â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol yn ystod y pandemig.

# Y cwricwlwm ac addysgu

**Esboniodd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod wedi parhau i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau addas sy'n ymgysylltu â dysgwyr yn briodol, er gwaethaf y tarfu parhaus a achoswyd gan COVID-19. Parhaodd bron pob lleoliad i gael mesurau diogelwch ychwanegol ar waith, fel cyfyngu nifer yr ymwelwyr, ond cyflwynodd y rhan fwyaf ohonynt sesiynau heb lawer o newidiadau i'w harferion rheolaidd.**

Parhaodd llawer o leoliadau mwy i osgoi cymysgu grwpiau mawr o blant a staff, er enghraifft trwy weithredu swigod ar gyfer y rhai sydd mewn gwahanol ystafelloedd. Ar y cyfan, caniataodd y rhan fwyaf o ymarferwyr i blant gymysgu'n rhydd â'u ffrindiau ac oedolion yn ystod sesiynau. Darparodd llawer ohonynt fynediad at ystod addas o adnoddau, gan gymryd camau ychwanegol i ddiogelu plant rhag haint, fel y bo'n briodol. Er enghraifft, newidiodd ymarferwyr adnoddau hydrin yn rheolaidd. Sicrhaodd hyn fod plant yn parhau i gael profiadau gwerthfawr mewn modd diogel, er bod y trosiant uwch hwn o adnoddau wedi creu baich ariannol ychwanegol ar leoliadau.



Ailddechreuodd y rhan fwyaf o leoliadau gynnig mynediad at chwaraeon yn y dŵr a'r tywod, gyda mesurau rheoli ar waith, fel golchi dwylo'n amlach. Addasodd mwyafrif o leoliadau eu hamser byrbryd er mwyn rheoli gweithdrefnau glanhau ychwanegol a roddwyd ar waith o ganlyniad i COVID-19. Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn golygu nad oedd amser byrbryd bob amser yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol ag o'r blaen i hyrwyddo annibyniaeth plant. Parhaodd ychydig iawn o leoliadau i ddarparu mynediad di-dor at 'gaffi byrbryd', ble roeddent yn gallu gweini eu hunain pan oeddent yn teimlo'n llwglyd.

Mae mwyafrif yr arweinwyr wedi dechrau sicrhau bod plant yn cael mynediad cynyddol at adnoddau dilys, fel eitemau bob dydd y cartref, yng ngwahanol ardaloedd dan do ac allanol y lleoliad. Pan oedd yr ymagwedd hon yn newydd, addasodd arweinwyr eu harferion yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru gyda mwy o bwyslais ar brofiadau dysgu dilys. Er enghraifft, mewn un lleoliad, roedd ffôn, cwpanau a phlatiau Tsieina, offer go iawn ar gyfer y gegin, a llysiau go iawn i'r plant eu harchwilio. Mae ychydig o ymarferwyr wedi dechrau darparu adnoddau mwy naturiol neu benagored i blant arbrofi â nhw, fel moch coed, brigau a boncyffion, i sbarduno chwilfrydedd a dychymyg plant.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr eu bod wedi cynyddu'r defnydd o'r awyr agored ar gyfer dysgu yn ystod pandemig COVID-19. Darparodd mwyafrif ohonynt gyfleoedd i blant symud yn rhwydd rhwng darpariaeth dan do a darpariaeth awyr agored. Yn yr achosion cryfaf, roedd plant yn dewis pryd hoffen nhw chwarae yn yr awyr agored, ni waeth beth oedd y tywydd, ac roeddent yn cael eu hannog i wisgo'u hunain yn addas, er enghraifft trwy nôl dillad di-ddos ac esgidiau glaw, a'u gwisgo. Rhoddodd hyn gyfleoedd gwerthfawr i blant fod allan yn yr awyr agored ym mhob math o dywydd. Er enghraifft, mewn un lleoliad, neidiodd plant mewn pyllau dŵr mwdlyd ar y glaswellt. Casglon nhw ddŵr glaw ag amrywiaeth o offer, a darganfod nad oedd rhidyll yn addas ar gyfer hyn, a bod llwy fawr yn well. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o bartneriaid cymorth eu bod yn meddwl bod yr awyr agored wedi cael ei ddefnyddio'n dda yn ystod misoedd cynhesach, ond bod ymarferwyr yn llai awyddus i fod yn yr awyr agored ar ôl i'r tywydd oeri. Roedd ychydig o leoliadau sy'n pacio popeth o'r neilltu a'r rhai sydd â gofod cyfyngedig yn yr awyr agored yn wynebu heriau o hyd o ran cael mynediad at ardaloedd addas yn yr awyr agored. Dywedodd partneriaid cymorth o un consortiwm wrthym eu bod wedi canolbwyntio ar greu profiadau dysgu dilys yn yr awyr agored, fel plannu, tyfu a chynaeafu, yn hytrach na chreu amgylcheddau artiffisial yn yr awyr agored. Ailddechreuodd ychydig o leoliadau ymweld â'r gymuned leol. Cyfyngwyd ar ymweliadau oherwydd COVID-19, fel darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymweld â'r parc lleol, coetir neu draeth.

Teimlai llawer o bartneriaid cymorth fod lleiafrif o leoliadau wedi achub ar y cyfle i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig, yn barod ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bu mwy o ffocws ar chwarae a dysgu'n seiliedig ar chwarae, a mwy o gyfleoedd i ymateb i ddiddordebau plant. Er enghraifft, rhoesant gyfleoedd rheolaidd i blant awgrymu syniadau yn ystod amser cylch, a chynllunio themâu yn unol â hynny. Yn yr achosion cryfaf, arsylwodd ymarferwyr ddiddordebau plant yn ystod sesiynau, ac addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Mewn ychydig o achosion, mae lleoliadau wedi symud o drefn ddyddiol lem i ymateb yn fwy pwrpasol i anghenion plant. O ganlyniad, mae plant yn ymgysylltu'n fwy â'u dysgu ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau hwy. Yn yr achosion cryfaf, galluogodd staff y plant i

ddysgu trwy fodelu, annog, awgrymu a rhoi ciwiau geiriol. Dywedodd lleiafrif o arweinwyr wrthym ni fod eu dull addysgu yn llai ffurfiol a mwy ymatebol erbyn hyn.

**Cameo – ymateb i ddiddordebau plant**

Mae ymarferwyr ym meithrinfa The Owl and Pussycat Nursery yn awdurdod lleol Casnewydd wedi dechrau defnyddio dulliau addysgu sy'n cael eu harwain yn fwy gan blant nag o'r blaen. Maent yn dysgu addasu i ddilyn diddordebau plant yn hytrach na darparu gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion. Er enghraifft, dangosodd plentyn ddiddordeb mewn esgyrn a sgerbydau, ac adeiladodd staff ar hyn trwy roi lluniau pelydr-X ar y blwch golau. Dangosodd plentyn arall ddiddordeb mewn tylluanod, a darparodd staff amrywiaeth o adnoddau tylluan iddi eu harchwilio, fel pyped a llyfrau am dylluanod. Mae ymarferwyr yn teimlo bod hyn wedi grymuso plant gan ei fod yn cynyddu ymdeimlad o berchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, ac yn eu galluogi i ddatblygu eu diddordebau eu hunain.

Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym eu bod yn parhau i ddarparu cydbwysedd rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan blant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Hyd yn oed mewn achosion ble mae lleoliadau'n arbrofi â dull mwy ymatebol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu. Er enghraifft, maent yn parhau i ddefnyddio amser cylch i drafod teimladau, darllen storïau, neu gyflwyno geirfa Gymraeg. Yn yr achosion cryfaf, sicrhaodd ymarferwyr fod sesiynau grwpiau cyfan yn gryno, bod iddynt gyflymdra bywiog, ac yn cynnal diddordeb plant. Wrth arbrofi ag ymagweddau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, nid oedd lleiafrif o leoliadau'n darparu tasgau â ffocws wedi'u cynllunio ymlaen llaw dan arweiniad ymarferwyr mwyach er mwyn cynyddu'r pwyslais ar blant yn arwain eu dysgu eu hunain. Dywedodd arweinwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg wrthym eu bod yn parhau i nodi cyfleoedd i gyflwyno geirfa Gymraeg trwy gyfuniad o weithgareddau wedi'u cynllunio, ac ymateb i ddiddordebau plant. Er enghraifft, hwylusodd ymarferwyr gêm bingo geiriau yn gysylltiedig â'r thema bresennol.

Yn gyffredinol, teimlai partneriaid cymorth fod medrau Cymraeg plant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref wedi llithro'n ôl yn ystod cyfnodau clo. Fodd bynnag, dywedodd llawer o arweinwyr wrthym fod plant yn caffael medrau Cymraeg yn unol â'r disgwyl yn ystod tymor yr hydref. Er enghraifft, gallai'r rhan fwyaf o blant ddeall cyfarwyddiadau, ac ymateb iddynt, ond prin yn eu plith oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol. Mae problemau parhaus â recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg wedi golygu nad yw ymarferwyr bob amser yn meddu ar y medrau Cymraeg i gynorthwyo plant yn effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Gallai fod goblygiadau i hyn i gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir.

Yn gyffredinol, teimlai partneriaid cymorth fod prif egwyddorion addysgegol y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir yn glir. Croesawon nhw'r ffocws ar ddatblygiad plant a dysgu yn seiliedig ar chwarae. Mynegodd ychydig ohonynt bryderon ynglŷn â pha mor gyson y mae pob un o'r ymarferwyr yn cymhwyso egwyddorion datblygiad plant yn eu cynllunio. Hefyd, mynegodd ychydig ohonynt bryderon am y gwahaniaethau mewn addysgeg rhwng

ysgolion a lleoliadau, a theimlent y byddai angen mwy o hyfforddiant ar draws sectorau ar gyfer rôl yr oedolyn galluogi.

Parhaodd llawer o leoliadau i asesu medrau plant wedi iddynt ddechrau yn ystod tymor yr hydref. Er enghraifft, parhaodd llawer ohonynt i ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, addasodd lleiafrif o arweinwyr eu dulliau o asesu cynnydd plant i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn symleiddio eu prosesau asesu trwy roi pwyslais cynyddol ar arsylwi a chreu cysylltiadau â'r cam nesaf yn nysgu'r plentyn. Cofnododd llawer ohonynt gynnydd plant yn weledol, trwy ychwanegu ffotograffau at lyfrau trysor neu apiau y gall rhieni eu defnyddio. Roedd ychydig iawn o ymarferwyr yn dechrau ymgyfarwyddo ag agweddau penodol ar y cwricwlwm yn y sector nas cynhelir, fel arwyddocâd sgemâu, rhyngweithio effeithiol, arsylwi o ansawdd da, a dealltwriaeth o ddysgu dilys mewn datblygiad plant. Awgrymodd lleiafrif o bartneriaid cymorth fod angen i ymarferwyr ddangos dealltwriaeth gadarn o'r agweddau hyn cyn iddynt symud ymlaen i gynllunio ymatebol. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod amrywioldeb sylweddol ar draws lleoliadau yn eu hardal a'u parodrwydd i arddel ffordd newydd o weithio. Teimlai'r rhan fwyaf o bartneriaid cymorth fod ymarferwyr yn ceisio eglurder am drefniadau asesu yn y dyfodol.

Dywedodd un consortiwm wrthym eu bod wedi cynnal digwyddiadau i leoliadau ymateb i'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir, a bod nifer dda wedi mynychu'r rhain. At ei gilydd, roedd ymarferwyr a fu'n gysylltiedig â cham creu a phrofi'r ddogfen cwricwlwm nas cynhelir yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i phrif egwyddorion a'r modd yr oedd yn cysylltu â'r agweddau eraill ar y Cwricwlwm i Gymru.

# Dysgu proffesiynol

**Trwy gydol cyfnod y pandemig, dywedodd arweinwyr wrthym eu bod wedi gweithio'n galed i gynnal ffocws cyson ar sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr. Manteision nhw ar ystod eang o gymorth ymarferol yn ymwneud ag elfennau iechyd a diogelwch, yn cynnwys asesiadau risg, a diogelu.**

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym eu bod eisoes wedi sefydlu perthnasoedd cryf â phartneriaid cymorth, a mynegi eu gwerthfawrogiad o'r cymorth a'r cyngor amrywiol a ddarperir. Dywedodd llawer ohonynt wrthym fod ymarferwyr wedi elwa ar sesiynau ar wahanol destunau, er enghraifft cefnogi elfennau lles, deall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a hyrwyddo datblygu'r Gymraeg.



Dywedodd partneriaid cymorth wrthym ni eu bod wedi paru eu cynnig dysgu proffesiynol i fentrau Llywodraeth Cymru, fel cyflawni telerau'r cyllid grant recriwtio, adfer a chodi safonau. Dywedodd lleiafrif o arweinwyr wrthym fod aelodau staff wedi parhau i ddilyn cymwysterau proffesiynol, gan gynyddu capasiti arwain o fewn eu lleoliadau.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym am ystod eang y gweithgareddau a oedd wedi cael eu darparu i'w cynorthwyo wrth iddynt ddatblygu eu hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn teimlo bod cyfleoedd hyfforddi wedi bod yn ddefnyddiol, ac wedi rhoi cyfle i ymarferwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm, a sut y dylai effeithio ar eu harferion. Er enghraifft, dywedodd un arweinydd wrthym fod hyfforddiant ar ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad plant wedi bod yn werthfawr iawn, ac wedi gwneud iddynt edrych ar sut maent yn cefnogi'r dysgu fel galluogwyr, yn hytrach nag arwain gweithgareddau.

**Cameo – dysgu proffesiynol trwy arsylwi arfer effeithiol**

Mae arweinwyr ym meithrinfa The Homestead Day Nursery, awdurdod lleol Wrecsam, yn rhoi pwyslais mawr ar arsylwi yn eu harferion, ac yn falch â'r amlygrwydd a gaiff yn y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir. Mae arweinwyr yn defnyddio clipiau o arfer ddiddorol yn ystod gweithgareddau dysgu proffesiynol gydag ymarferwyr. Trwy drafod pwyntiau allweddol, mae staff yn gwneud awgrymiadau wedyn am beth ddylent ei wneud nesaf mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r math hwn o weithgaredd dysgu proffesiynol yn cyd-fynd yn agos ag ymagwedd ymatebol. Caiff staff eu hannog a'u grymuso i ofyn 'pam' iddyn nhw eu hunain, o ran pam mae plant yn gwneud rhai pethau neu'n ymddwyn mewn ffyrdd penodol i ymateb fel y maen nhw. Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o gamau datblygiad plant, ac yn deall pa fedrau a hyder y mae angen i blant eu cryfhau i allu cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Mae staff yn magu hyder ac yn sylweddoli mai gwneud llai yw'r peth cywir i'w wneud, weithiau.

Roedd y lleoliad yn rhan o gynllun peilot yr awdurdod lleol wedi'i anelu at hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau penagored fel blychau, cratiau, cregyn môr a phlu. Mae hyn wedi bod yn werthfawr wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru trwy annog plant i ddefnyddio eu dychymyg a'u medrau creadigol. Roedd arweinwyr yn awyddus i adeiladu ar eu harferion presennol yn hytrach na gwneud newidiadau radical.

Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym am weithgareddau dysgu proffesiynol defnyddiol yr oeddent wedi eu gwneud gydag ymarferwyr yn eu lleoliadau. Disgrifiodd un arweinydd sut roeddent wedi defnyddio ffotograffau o blant yn chwarae i hyrwyddo trafodaeth ymhlith staff am bwysigrwydd arsylwi i gynllunio'n ymatebol i ddysgu plant. Dywedodd arweinydd arall wrthym ei bod wedi creu gweithgaredd i ddyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o'r pum llwybr datblygiadol.

Dywedodd llawer o arweinwyr a phartneriaid cymorth wrthym y bu'n anodd i arweinwyr lleoliadau ryddhau ymarferwyr i fynychu hyfforddiant o ganlyniad i brinder staff yn gysylltiedig â COVID-19. Dywedodd partneriaid cymorth fod y nifer sy'n manteisio ar ddysgu proffesiynol yn dda, ar y cyfan, ond bod y nifer wedi lleihau yn

aml wrth i fwy o leoliadau gael trafferthion â phroblemau staffio a blinder. Dywedodd lleiafrif o arweinwyr wrthym fod aelodau staff wedi parhau i ddilyn cymwysterau proffesiynol, gan gynyddu capasiti arwain o fewn eu lleoliadau. Roedd dysgu proffesiynol wedi parhau i ddigwydd o bell yn bennaf, ond roedd ychydig o sesiynau'n dechrau cael eu cynnal wyneb yn wyneb. Cytunodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi gweld sesiynau galw i mewn o bell yn ddefnyddiol iawn i siarad am bryderon. Ar y cyfan, teimlai arweinwyr fod dysgu o bell yn llwyddiannus ac yn haws i ymarferwyr gael mynediad ato, yn gyffredinol. Er enghraifft, dywedodd un arweinydd mewn lleoliad gwledig wrthym ei bod yn gyfleus i ymarferwyr ymgymryd â dysgu proffesiynol o bell gan ei fod yn osgoi gorfod teithio pellter sylweddol i leoliad canolog, ac yn lleihau maint yr amser i ffwrdd o gartref. Fodd bynnag, teimlai lleiafrif ohonynt na ddylai sesiynau o bell ddisodli cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gyfan gwbl. Hefyd, rhannodd ychydig o arweinwyr eu rhwystredigaeth fod y diffyg cysylltedd yn eu lleoliad yn golygu bod mynediad yn amhosibl, ar adegau. Yn gyffredinol, roedd ymdeimlad y dylid cynnal cyfuniad o'r naill ddull a'r llall yn y dyfodol.

## Arweinyddiaeth

**Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliodd bron pob un o'r arweinwyr eu protocolau sefydledig i sicrhau diogelwch plant a staff er gwaethaf yr heriau a achosir gan COVID-19. Cymerodd staff brofion rheolaidd a chysylltu'n agos â rhieni os oedd achosion yn y lleoliad.**

Hefyd, sicrhaodd arweinwyr fod lleoliadau ac offer yn cael eu glanhau a'u diheintio yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Parhaodd llawer o arweinwyr i werthfawrogi cymorth cydweithwyr a phartneriaid cymorth o wahanol sefydliadau i leddfu'r pwysau ychwanegol sylweddol. Fodd bynnag, roedd arwain eu lleoliad o ddydd i ddydd, cynnal morâl staff a glynu at yr arweiniad sy'n esblygu ar ddiogelwch yn parhau i fod yn heriol. Teimlai arweinwyr ei bod yn bwysig sicrhau cyflenwad cyson o wybodaeth i rieni a gofalwyr, er gwaethaf y baich gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn.



Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym fod rheoli absenoldeb staff o ganlyniad i hunanynysu wedi bod yn heriol, yn enwedig gan fod prinder mawr o ran staff cyflenwi. Roeddent yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd cynyddol a ddarparwyd trwy lacio'r safonau gofynnol cenedlaethol dros dro o ran cymwysterau staff a chymarebau oedolyn i blentyn. Mynegodd lleiafrif o arweinwyr eu pryderon fod sawl aelod o staff wedi cael swydd arall, a bod recriwtio yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae'r pryderon hyn hyd yn oed yn fwy dybryd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Esboniodd ychydig o arweinwyr eu bod wedi gallu ailgyflwyno lleoliadau ar gyfer myfyrwyr yn ystod tymor yr hydref.

Mae pob un o'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi parhau i ddefnyddio technoleg i gyfathrebu, gan adeiladu'n aml ar fedrau newydd maent wedi'u caffael yn ystod y pandemig.

**Cameo – gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg i gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol**

Esboniodd arweinwyr yng nghylch chwarae Standing to Grow Playgroup, Pen-y-bont ar Ogwr, fod cyflwyno 'ap' ar gyfer rhieni a gofalwyr wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roedd rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn roedd eu plant yn ei wneud, ac yn cael gwybodaeth am ddigwyddiadau a dathliadau arbennig. Maent yn fwy parod i gyfathrebu â'r arweinydd gan ddefnyddio'r ap. Bydd hyn yn newid parhaol i arfer.

Hefyd, teimla'r arweinydd ei bod wedi cyfarfod ag amrywiaeth fwy o weithwyr proffesiynol ar-lein yn ystod y pandemig. O'r herwydd, mae hi wedi datblygu perthynas waith dda gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a seicolegwyr addysg lleol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol.

Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym ni ei fod yn parhau yn gyfnod anodd iawn i gynnal momentwm a chyflwyno newidiadau strategol yn eu lleoliadau. Parhaodd llawer o leoliadau i gynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod eu darpariaeth ac addysgu. Parhaodd arweinwyr i weld bod hyn yn rhan allweddol o'u gwaith; rhywbeth y mae angen ei gynnal. Er gwaethaf yr heriau parhaus yn sgil COVID-19, parhaon nhw i werthuso eu darpariaeth a'r profiadau y maent yn eu darparu ar gyfer y plant, er enghraifft wrth addasu eu meysydd dysgu a chynllunio defnydd gwell o'r awyr agored. Dywedodd ychydig ohonynt wrthym fod hyn yn hynod werthfawr wrth iddynt baratoi am y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir.

**Cameo – sicrhau cyfnod pontio esmwyth rhwng lleoliadau ac ysgolion**

Mae arweinwyr yn Sêr Bach Y Cwm, awdurdod lleol Powys, wedi datblygu partneriaeth agos â'r ysgol leol. Ceir cydweithio pwrpasol rhwng y lleoliad a'r ysgol. Er enghraifft, gweithion nhw gyda'i gilydd i gytuno ar weledigaeth gyffredinol sy'n cyfrannu at eu gwaith wrth ystyried sut byddant yn rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Wrth gytuno ar weledigaeth, gwelon nhw fod llawer o agweddau a oedd yn gyffredin i'r ysgol a'r lleoliad, ond eu bod hefyd eisiau teilwra rhai elfennau i adlewyrchu eu hanghenion unigol. Mae'r cam hwn wedi helpu'r lleoliad i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plant a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r lleoliad, a meddwl am sut gallant ddatblygu eu cwricwlwm i fodloni eu hanghenion. Dywed arweinydd y lleoliad fod gweithio gyda'r ysgol fel hyn wedi golygu bod staff yn teimlo eu bod yn rhan o ymagwedd gyfannol at ofal plant ac addysg yn yr ardal a bod cyfnod pontio o'r lleoliad i'r ysgol yn broses ddi-dor.

# Lles

## Lles plant

**Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym ni fod plant wedi ymgynefino'n dda yn ystod tymor yr hydref ac yn mwynhau eu dysgu. Yn gyffredinol, gwnaeth y plant ffrindiau newydd yn gyflym, ac roeddent yn mwynhau archwilio eu hamgylchedd dysgu newydd.**

Er bod llawer o'r plant hyn efallai wedi colli allan ar fynychu grwpiau mamau a phlant bach, er enghraifft, teimlai ychydig o arweinwyr fod y garfan hon wedi ymgyfarwyddo'n gyflymach ag arferion na'r rhai o'r ddau dymor blaenorol. Fodd bynnag, nododd ychydig o arweinwyr ei bod yn ymddangos bod medrau personol a chymdeithasol mwy o blant a ddechreuodd yn ystod tymor yr hydref yn llai datblygedig na'r arfer. Yn y lleoliadau hyn, roedd staff yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant ymgynefino a gwneud ffrindiau newydd trwy amrywiaeth o weithgareddau difyr.



**Cameo – angen teitl**

Penderfynodd arweinwyr ac ymarferwyr yn Busy Bees, awdurdod lleol Sir y Fflint, ganolbwyntio ar wella medrau personol a chymdeithasol plant yn ystod tymor yr hydref. Roedd ymarferwyr wedi nodi ei bod yn ymddangos nad yw mwy o blant na'r arfer yn meddu ar y medrau angenrheidiol i gymdeithasu a chymysgu â phlant eraill ar ddechrau'r tymor. Pan nad oeddent yn y lleoliad, nid yw'r plant hyn wedi cael llawer o gyswllt â phlant eraill. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi mynd i'r afael â'r broblem hon trwy gynnal diwrnodau arbennig difyr a rhyngweithiol i gynorthwyo plant. Penderfynon nhw gynnal gŵyl 'Glastonbee' yn yr ardd, ble gwisgodd plant wisgoedd a mynd ar y llwyfan i ganu a dawnsio gyda'i gilydd. Mae'r diwrnodau arbennig hyn wedi helpu plant i ffynnu'n emosiynol ac yn gymdeithasol, a gall ymarferwyr weld yr effaith pan fydd plant yn chwarae yn yr amgylchedd dysgu.

Hefyd, nododd ychydig o arweinwyr nad oedd rhai dechreuwyr newydd yn aml yn meddu ar fedrau annibynnol a hunangymorth, yn cynnwys gwybod pryd mae angen iddynt ddefnyddio'r toiled neu archwilio ardaloedd dysgu ar eu pen eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaid cymorth yn cytuno ei bod yn ymddangos bod gan fwy o blant anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu a'u bod yn llai annibynnol o ganlyniad i'r pandemig. Nodon nhw hefyd fod lleoliadau'n fwy ymwybodol erbyn hyn o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant yn ystod y pandemig, a bod angen parhau i gynorthwyo plant a'u teuluoedd.

Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym eu bod yn fwy ymwybodol y tymor hwn o'r gorbryder a deimla rhieni a gofalwyr a oedd yn ei chael yn anodd gadael eu plant mewn lleoliadau ar ôl cyfnodau estynedig gartref. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd rhieni a phlant yn gallu ymweld cyn dechrau ym mis Medi o ganlyniad i ganllawiau COVID-19 ar gyfyngu nifer yr ymwelwyr â'r lleoliad. Gallai hyn fod wedi ychwanegu at orbryder plant a'u rhieni a'u gofalwyr ar ddechrau'r tymor. Fodd bynnag, llwyddodd ychydig o leoliadau i ddarparu 'diwrnodau agored' yn yr awyr agored ar gyfer rhieni a gofalwyr a phlant yn ystod tymor yr haf i'w helpu i ddod i adnabod y staff a'i gilydd cyn dechrau ym mis Medi. Hefyd, mae'r defnydd parhaus o amrywiaeth o apiau a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol yn helpu lleddfu pryderon rhieni a gofalwyr trwy roi gwybod iddynt am ddiwrnod eu plentyn yn y lleoliad, yn ogystal â'i gynnydd cyffredinol.

**Cameo – angen teitl**

Trefnodd arweinwyr yng Nghylch Meithrin Cynwyd Sant, awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, ddiwrnod "cwrdd a chyfarch" ar ddiwedd tymor yr haf er mwyn i'r plant newydd a'u teuluoedd allu ymweld â'r lleoliad cyn dechrau ym mis Medi 2021. Cyfarfu rhieni a gofalwyr â'r arweinwyr yn yr awyr agored yn gyntaf tra roedd y plant yn chwarae yn yr ardal awyr agored, ac wedyn cafodd pob plentyn gyfle i edrych y tu mewn i'r adeilad, un teulu ar y tro. Roedd y diwrnod yn llwyddiannus iawn, a helpodd rhieni a gofalwyr i ddod i adnabod y lleoliad a'r staff. O ganlyniad i lwyddiant y digwyddiad, mae arweinwyr yn bwriadu trefnu diwrnod tebyg yn 2022.

Nododd arweinwyr fod staff yn meddu ar ddealltwriaeth well o bwysigrwydd lles emosiynol plant sy'n eu galluogi i ddarparu gweithgareddau pwrpasol i helpu plant rannu eu teimladau â phobl eraill. Erbyn hyn, mae llawer o leoliadau'n darparu mwy o gyfleoedd i blant rannu eu teimladau trwy sesiynau grwpiau mawr fel amser cylch, a thrwy ddulliau mwy cynnil yn ogystal, fel dewis pa gerdyn sy'n adlewyrchu eu teimladau orau wedi iddynt gyrraedd.

**Cameo – cefnogi lles plant**

Mae ymarferwyr yn Burleigh House yn awdurdod lleol Casnewydd wedi ceisio gwneud y lleoliad mor groesawgar ag y bo modd er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19, ac yn ymdrechu i ddarparu ymdeimlad cartrefol ar gyfer plant. Maent wedi canolbwyntio ar les emosiynol plant, ac wedi cyflwyno bwrdd teimladau ble mae plant yn nodi sut maent yn teimlo wrth iddynt hunangofrestru. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymarferwyr drafod teimladau plant gyda nhw. Os yw plant wedi dangos nad ydynt yn hapus am unrhyw reswm, bydd staff yn sgwrsio â nhw ac yn ceisio datrys unrhyw broblemau. Hefyd, mae ymarferwyr wedi cyflwyno sesiynau i arfogi plant â medrau a strategaethau i'w helpu i ymlacio a rheoli eu hemosiynau. Er enghraifft, mae dau blentyn nad ydynt bob amser yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd yn cael eu hannog i gymryd anadl ddofn os ydynt yn teimlo eu bod yn gwylltio â'i gilydd. Mae'r strategaethau hyn wedi helpu plant i ymgynefino'n dda yn eu hamgylchedd newydd, ac wedi galluogi ymarferwyr i uniaethu'n well â'r rhai oedd angen cymorth ychwanegol.

## Lles staff

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym ni fod cefnogi lles staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth iddynt yn ystod tymor yr hydref wrth i COVID-19 barhau i effeithio ar eu gwaith. Dywedon nhw fod y rhan fwyaf o staff wedi addasu'n dda yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar COVID-19 i gadw plant yn ddiogel mewn lleoliadau, ac roeddent yn llai gorbryderus ar y cyfan, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn sgil lledaeniad cynyddol amrywiolyn Omicron ynghyd â llacio'r rheolau ar gyfer profion PCR i blant o dan bump oed, roedd staff yn poeni mwy am eu lles eu hunain tuag at ddiwedd y tymor.

Parhaodd arweinwyr i wneud eu gorau i gynorthwyo staff trwy gydol tymor yr hydref. Mewn llawer o leoliadau, cynhaliodd arweinwyr sesiynau "amser i siarad" rheolaidd gydag aelodau staff i'w galluogi i drafod eu teimladau neu ofidiau y maent eisiau eu rhannu, efallai. Yn aml, estynnodd arweinwyr yr amser neilltuedig ar gyfer goruchwylwyr i ganiatáu digon o gyfle i staff siarad, a helpu datrys unrhyw broblemau personol y gallent fod yn eu profi o ganlyniad i'r pandemig, er enghraifft problemau am ofal plant personol neu gyllid personol. Mewn ychydig o leoliadau, trefnodd arweinwyr sesiynau ioga o bell ar gyfer staff neu ddarparu byrbrydau, cylchgronau neu bethau bach da i staff eu mwynhau. Dywedodd un arweinydd wrthym ni eu bod yn annog staff i ysgrifennu sylwadau cadarnhaol ac ysbrydoledig am ei gilydd ar ddydd Gwener i helpu codi morâl.

# Anghenion dysgu ychwanegol

**Dywedodd y rhan fwyaf o bartneriaid cymorth wrthym ni y buont yn gweithio gydag arweinwyr lleoliadau dros y flwyddyn ddiwethaf i baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).**

Roeddent yn teimlo bod y Ddeddf yn rhoi cyfle iddynt alinio polisïau a gweithdrefnau'n well ar gyfer nodi a chynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn lleoliadau. Fodd bynnag, mynegodd ychydig ohonynt bryder ynglŷn â'r amrywiad o ran cyflwyno hyfforddiant a gweithredu'r Ddeddf ar draws awdurdodau lleol. At ei gilydd, croesawodd arweinwyr a phartneriaid cymorth hefyd y ffaith fod mwy o gymorth gan wahanol asiantaethau ar draws awdurdodau lleol, a rhyngddynt.



Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym ni eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant maent wedi'i gael gan eu hawdurdodau lleol ac yn croesawu rôl newydd Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SADYBC) i gydlynu cymorth ar gyfer plant, a rhoi cyngor ac arweiniad priodol i staff. Dywedodd arweinwyr wrthym ni fod yr hyfforddiant wedi eu galluogi i ddechrau addasu eu darpariaeth ADY yn barod ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Yn y lleoliadau hyn, mae staff yn fwy cyfarwydd â therminoleg newydd a phrif oblygiadau'r Ddeddf erbyn hyn, yn enwedig defnyddio cynlluniau datblygu unigol sy'n disodli'r holl gynlluniau statudol ac anstatudol presennol. Fodd bynnag, dywedodd ychydig iawn o arweinwyr wrthym nad ydynt wedi cael hyfforddiant gan eu hawdurdod lleol eto, ac nid ydynt yn deall goblygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn llawn. Cydnabu rhai sefydliadau ymbarél fod hyn yn destun pryder, gan fod maint y cymorth a'r hyfforddiant yn parhau i amrywio ledled Cymru. Yn ychwanegol, mae arweinwyr mewn ychydig o leoliadau cyfrwng Cymraeg a phartneriaid cymorth wedi mynegi pryderon am argaeledd cymorth arbenigol ar gyfer plant a'u teuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd llawer o arweinwyr a phartneriaid cymorth y bu cynnydd yn nifer y plant sydd â phroblemau lleferydd ac iaith, yn ogystal â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol yn ystod y pandemig. Mewn ychydig o enghreifftiau, nododd arweinwyr fod y plant hyn wedi colli allan ar gael cyswllt cynnar gyda gweithwyr proffesiynol hefyd, fel ymwelwyr iechyd, yn ystod y pandemig. O ganlyniad, ni chynhaliwyd prosesau sgrinio rheolaidd bob amser, ac ni nodwyd problemau fel anawsterau lleferydd ac iaith nes i'r plentyn ddechrau yn y lleoliad. Hefyd, dywedodd arweinwyr fod hyn yn cael ei rwystro ymhellach gan anallu gweithwyr proffesiynol, fel therapyddion lleferydd ac iaith, i gynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod hwn.

Dywedodd athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar y bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyfarfodydd panel ADY mewn ychydig o awdurdodau lleol, a bod y rhain yn mynd â chryn dipyn o'u hamser. Teimlai ychydig ohonynt fod eu rôl yn ehangu'n gyflym, a bod hyn yn rhoi pwysau ychwanegol arnynt, ac yn lleihau'r amser roedd ganddynt i weithio'n uniongyrchol gyda phlant a staff lleoliadau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae cyflwyno hyfforddiant ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi helpu arweinwyr i wella ansawdd y dystiolaeth a ddarperir wrth gyfeirio plant at y panel, sydd wedi helpu'r awdurdod lleol i ddarparu'r cymorth targedig cywir ar eu cyfer. Mae partneriaid cymorth o'r farn bod angen cyflwyno hyfforddiant pellach yn gyson i sicrhau bod yr holl ymarferwyr wedi'u harfogi â'r medrau cywir, a chynorthwyo plant ag ADY yn gynnar. Dywedodd lleiafrif o arweinwyr wrthym ni eu bod wedi elwa'n fawr ar rannu arferion gyda lleoliadau eraill ar-lein, yn aml wedi'i hwyluso gan bartneriaid cymorth.

**Cameo – cynorthwyo plant ag ADY**

Mae arweinwyr yn Rachael's Playhouse yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf wedi sefydlu partneriaethau cryf gyda darparwyr eraill sydd ag arferion cryf o ran cynorthwyo plant ag ADY. Mae arweinydd y lleoliad wedi trefnu ymweliadau ag ysgol arbennig i ddysgu oddi wrth ei harferion da, yn ogystal â gwahodd ymarferwyr o'r ysgol i'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn teimlo bod hyn wedi llywio eu harferion o ran ADY, ac wedi helpu staff i addasu eu harferion eu hunain. O ganlyniad, maent yn gweithredu dull ymateb graddedig erbyn hyn i ddarparu cymorth targedig ar gyfer eu plant y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Er enghraifft, mae arweinwyr yn ysgrifennu ac yn gweithredu cynlluniau datblygu chwarae yn rheolaidd yn y lle cyntaf i gynorthwyo plant â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol, cyn cynyddu cymorth gan arbenigwyr allanol, os oes angen. Hefyd, mae hyn wedi gwella'r perthnasoedd rhwng staff y lleoliad, rhieni a gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol fel ymwelwyr iechyd, gan eu bod yn awr yn ysgrifennu cynlluniau chwarae gyda'i gilydd. Caiff y cynlluniau eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd i nodi cynnydd yn erbyn y targedau. Mae'r arweinydd yn credu bod eu hymagwedd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eu galluogi i gynllunio cymorth yn fwy effeithiol a cheisio cymorth teilwredig pellach ar gyfer plant trwy ddull ymateb graddedig, os oes angen.